

Datganiad ar y cyd: Gwella Safonau Golwg Gyrwyr Ledled y DU

Mae diogelwch ffyrdd y DU yn cael ei graffu o'r newydd. Wrth i'r Llywodraeth baratoi ei strategaeth diogelwch ffyrdd newydd, credwn mai nawr yw'r amser i foderneiddio dull y DU o olwg wrth yrru a gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

Rydym yn croesawu ac yn cymeradwyo'r datganiad diweddar gan Gymdeithas yr Optometryddion a Choleg yr Optometryddion sy'n galw am safonau golwg cryfach ar gyfer gyrwyr. Cefnogir hyn gan gyrff cynrychioliadol a phroffesiynol y DU, Cymdeithas Optegwyr Dosbarthu Prydain (ABDO), a FODO - Y Gymdeithas Darparwyr Gofal Llygaid (FODO) ynghyd ag Optometreg Gogledd Iwerddon, Optometreg yr Alban, ac Optometreg Cymru; y cyrff sy'n cynrychioli gofal llygaid yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru.

Gyda'i gilydd, mae'r gymuned gofal llygaid ledled y DU a'i gwledydd cyfansoddol i gyd yn cefnogi'r alwad am safonau golwg gyrru mwy diogel.

Pam nawr

Ar hyn o bryd nid oes angen gwiriad golwg proffesiynol arferol ar gyfer pasio'r prawf gyrru neu ar gyfer adnewyddu ar ôl 70 oed. Mae'r system yn dibynnu ar hunan-ddatgan a gwiriad plât rhif sylfaenol, sydd ddim yn ddigonol i gadw pobl yn ddiogel [1][2].

Mae adroddiad diweddar gan y crwner ar Atal Marwolaethau yn y Dyfodol wedi tynnu sylw eto at y ffaith bod y system bresennol ar gyfer sicrhau bod gyrwyr yn bodloni safonau gweledol cyfreithiol yn aneffeithiol, yn anniogel ac yn anaddas i'r diben [2].

Mae data arolwg yn dangos bod un o bob pedwar o bobl yn pryderu bod rhywun maen nhw'n ei adnabod yn gyrru gyda golwg gwael, ac y byddai rhai modurwyr yn parhau i yrru hyd yn oed pe dywedir wrthynt nad ydynt yn bodloni'r safon gyfreithiol [3].

Mae Gweinidogion y DU yn ystyried mesurau fel rhan o strategaeth diogelwch ar y ffyrdd newydd, gan gynnwys gwiriadau golwg gorfodol ar gyfer gyrwyr hŷn. Mae cyflwyno gwiriadau golwg cymesur wrth ymgeisio ac adnewyddu yn gam ataliol a fydd yn achub bywydau [4].

Yr hyn yr ydym yn galw amdano

- 1) Tystiolaeth orfodol bod gyrrwr yn bodloni'r safon golwg gyfreithiol wrth ymgeisio am drwydded dros dro ac adnewyddiadau dilynol.
- 2) System a gynlluniwyd gydag optometryddion ac optegwyr dosbarthu sy'n arbenigwyr rheng flaen mewn profi golwg, cywiro golwg a chanfod clefyd y llygaid.
- 3) Sicrhau bod diogelu'r cyhoedd yn seiliedig ar asesiadau proffesiynol o olwg gyrrwr a gynhelir yn briodol ac yn deg gan optometryddion cofrestredig ac optegwyr dosbarthu yn y gymuned.
- 4) Cyfathrebu cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth yn enwedig ymhlith grwpiau risg uchel ac i atgoffa gyrrwr o bwysigrwydd golwg dda a all wneud y gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth ar y ffyrdd

Sut gall optometreg gymunedol helpu

- *Mynediad teg* - Gall miloedd o bractisau ledled Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, a'r Alban ddarparu gwiriadau lleol effeithlon.
- *Atal a thriniaeth gynnar* - Mae profion golwg rheolaidd yn codi problemau cywiradwy, a gallant ganfod clefyd llygaid difrifol yn gynnar, gan gadw pobl ar y heol yn ddiogel am gyfnod hirach.
- *Cysondeb a thegwch* - Mae gofyniad safonol cyffredinol yn gliriach, yn decach ac yn fwy diogel na hunan-adrodd, a'r nod yw cefnogi pob gyrrwr i gael golwg dda a gyrrwr hŷn i barhau i yrru'n ddiogel cyn hired â phosibl [5].

I gloi

Ar draws pedair gwlad y DU, mae'r proffesiynau iechyd llygaid yn cefnogi'r AOP a Choleg yr Optometryddion i annog cyflwyno gwiriadau golwg gorfodol rheolaidd i yrwyr ac maent wedi ymrwymo i helpu i ddarparu system sy'n diogelu'r cyhoedd tra'n cefnogi gyrrwr i aros yn ddiogel ac yn annibynnol ar y ffordd.

Llofnodwyd ar 5 Medi 2025 yn ôl (trefn yr wyddor):



Max Halford
Cyfarwyddwr Clinigol a Pholisi
Cymdeithas Optegwyr Dosbarthu
Prydain



David Hewlett
Cyfarwyddwr Polisi a Strategaeth
FODO – y Gymdeithas Darparwyr Gofal
Llygaid



Brian McKeown
Cadeirydd
Optometreg Gogledd Iwerddon



Eilidh Thomson
Cadeirydd
Optometreg yr Alban



Owain Mealing
Cadeirydd
Optometreg Cymru

Cyfeirnodau

- [1] DVLA – [Rheolau gyrru golwg](#)
- [2] Barnwriaeth – [Adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol \(17 Ebrill 2025\)](#)
- [3] AOP – [Mae un o bob pedwar yn poeni am rywun maen nhw'n ei adnabod yn gyrru gyda golwg gwael \(27 Tachwedd 2024\)](#)

[4] Coleg yr Optometryddion - [Profion golwg gorfodol ar gyfer gyrwyr dros 70 oed yn cael eu hystyried fel rhan o ailwampio diogelwch ffyrdd newydd y Llywodraeth \(12 Awst 2025\)](#)

[5] Coleg yr Optometryddion - [Coleg a Chymdeithas yr Optometryddion yn galw am brofion golwg gorfodol i yrwyr \(1 Awst 2025\)](#)